



## Welsh Comprehensive School

Medi 25ain, 2017

Annwyl riant / gwarcheidwad,

Parthed: Eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol.

Rwy'n ysgrifennu atoch, yn dilyn y drefn flynyddol bellach, i'ch atgoffa am eich hawl i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu'r ysgol. Roedd yn arfer bod yn ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion gynnal cyfarfod blynyddol gyda rhieni. Cafodd y gofyniad hwnnw ei ddileu gan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf). Yn lle hynny, cyflwynwyd trefniadau newydd fel y bo modd i rieni ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu mewn unrhyw flwyddyn ysgol, i drafod materion sy'n peri pryder. Os ydych fel riant am arfer eich hawl dan y Ddeddf i gynnal cyfarfod, bydd angen bodloni 4 gofyniad:

### 1. Bydd angen i rieni gyflwyno deiseb o blaid cynnal cyfarfod.

Bydd angen i rieni o leiaf 10% o ddisgyblion cofrestredig yr ysgol i lofnodi'r ddeiseb. Yn achos deiseb ar bapur, rhaid rhoi llofnod ysgrifenedig, yn ogystal ag enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol. Os yw'r ddeiseb yn un electronig, bydd angen i riant 'lofnodi' drwy deipio ei enw a bydd rhaid rhoi enw a dosbarth pob plentyn sy'n ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol a chyfeiriad e-bost pob riant sy'n 'lofnodi'r' ddeiseb electronig.

### 2. Rhaid galw'r cyfarfod i drafod materion sy'n effeithio ar yr ysgol.

Ni ellir galw cyfarfod i drafod materion fel cynnydd disgyblion unigol, neu er mwyn gwneud cwyn yn erbyn aelod o staff yr ysgol neu aelod o'r corff llywodraethu. Dylai'r ddeiseb gynnwys manylion cryno am y mater(ion) i'w trafod, a'r rhesymau dros alw'r cyfarfod. Dylid dangos yr wybodaeth honno'n glir ar frig y ddeiseb, a dylai'r rhieni lofnodi oddi tani.

### 3. Ceir cynnal uchafswm o 3 chyfarfod yn ystod y flwyddyn ysgol.

Mae'r gyfraith yn caniatáu i rieni arfer eu hawliau i ofyn am hyd at 3 chyfarfod gyda chorff llywodraethu ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol.

### 4. Rhaid bod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol.

Mae'n amod dan y gyfraith fod o leiaf 25 o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol pan fo'r ddeiseb yn dod i law, a hynny fel y bo modd cynnal y cyfarfod. Ystyr "diwrnod ysgol" yw diwrnod pan fo'r ysgol yn agored i ddisgyblion: nid yw'n cynnwys penwythnosau, gwyliau cyhoeddus, gwyliau ysgol na diwrnodau Hyfforddiant mewn Swydd (HMS).

Ysgol Gyfun Gymraeg

**BRO MYRDDIN**



Croesyceiliog  
Caerfyrddin / Carmarthen SA32 8DN

Ffôn / Tel: (01267) 234829

E-bost / E-mail: [swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk](mailto:swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk)

Pennaeth / Headteacher: Dr Llinos Jones

*Welsh Comprehensive School*

Dylid cyflwyno'r ddeiseb ar bapur i gyfeiriad yr ysgol sef *Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin, Heol Croes-y-ceiliog, Caerfyrddin, SA328DN* neu yn electroneg i [swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk](mailto:swyddfa@bromyrdin.sirgar.sch.uk)

Mae rhagor o wybodaeth i'w gweld ar wefan Llywodraeth Cymru ynghylch sut y gallwch chi fel rhieni fynd ati i ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethu:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/parents-meetings-statutory-guidance/?lang=cy>

Yn gywir,

Dr Llinos Jones,  
(Pennaeth)

